| Atodiad 2 - Camau Galluogi'r Ysgrifennydd Cabinet 2025/26 | | |
|---|---|---|
| | | |
| **Maes Thematig** | **Amcan** | **Camau Galluogi** |
| Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd Gweithredol - gofal brys a gofal argyfwng | Gwella mynediad amserol at ofal, gan leihau hyd yr amser aros ym meysydd allweddol y ffrwd gofal brys a gofal argyfwng drwy fynd i'r afael ag amrywiadau | Gweithredu'r Ymateb i Gwympiadau yn y Gymuned - y Rhaglen Chwe Nod |
| | | Gweithredu'r fframwaith gwasanaethau asesu clinigol o bell - y Rhaglen Chwe Nod |
| | | Gweithredu'r model eiddilwch acíwt wrth y Drws Ffrynt - y Rhaglen Chwe Nod |
| | | Gweithredu Cylchlythyr Iechyd Cymru - Canllawiau Trosglwyddo Cleifion o Ambiwlansys - y Rhaglen Chwe Nod |
| | | Gweithredu'r Fframwaith Llif Gorau ar gyfer Cleifion yn yr Ysbyty - y Rhaglen Chwe Nod |
| | | Cynnal y camau gweithredu o fewn yr her 50 Diwrnod y gellir eu cyflawni'n gyson gydag ychydig iawn o adnoddau ychwanegol, o fewn sefydliadau ac fel blaenoriaeth o fewn trefniadau partneriaeth ranbarthol. Sicrhau bod cynllunio rhyddhau integredig effeithiol ar gyfer rhyddhau cleifion yn cael ei gyflawni yn gyson, gan ddefnyddio'r Canllawiau Cenedlaethol ar gyfer Rhyddhau Cleifion a gyhoeddwyd gan y Rhaglen Chwe Nod. |
| Cynhyrchiant Gweithredol - Gofal a Gynlluniwyd | Gwella mynediad amserol at ofal, gan leihau amrywiad diangen mewn cynhyrchiant clinigol | Gweithredu canllawiau cenedlaethol gyda throthwyon drwy'r Rhwydwaith Gweithredu Clinigol (CIN) a gweithdrefnau. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno cleifion allanol yn effeithiol trwy Sylw yn ôl Symptomau (SOS) ac Apwyntiad Dilynol ar Gais y Claf (PIFU) yn ôl arfer diofyn. Bydd CINs unigol yn sefydlu targedau PIFU / SOS yn ôl arbenigedd ac is-arbenigedd yn barhaus erbyn mis Mawrth 2025. |
| | | Dylai pob atgyfeiriad newydd ar gyfer Cataractau gael ei restru'n uniongyrchol i gam triniaeth y llwybr yn dilyn brysbennu gweinyddol erbyn diwedd Chwarter 2. |
| | | Sicrhau bod monitro cyfraddau DNA/CNA ar waith ar gyfer pob clinig cleifion allanol. Pan fydd DNA/CNA fel cyfradd gyfunol yn fwy na 5%, dylid gweithredu a monitro trefnu gormod o apwyntiadau ar gyfer cleifion ychwanegol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gweithredu meini prawf dilynol CIN yn rhagolygol ac yn ôl-weithredol i restrau aros dilynol sefydledig. |
| | | Ar 90% o ddiwrnodau dylid diogelu capasiti adfer cleifion mewnol gofal a gynlluniwyd/achosion dydd/theatrau rhag pwysau gofal heb ei drefnu ac allgleifion erbyn diwedd Chwarter 1. |
| | | Sicrhau defnydd effeithiol o gapasiti mewn theatrau drwy:<br>- Lleihau llawdriniaethau sy'n dechrau yn hwyr i lai na 20%;<br>- Lleihau llawdriniaethau sy'n gorffen yn gynnar i lai na 10%; a<br>- Cynyddu'r defnydd o sesiynau i safon GiRFT o 85% erbyn mis Mawrth 2026. |
| | | Gwelliant yn y broses o weithredu a darparu rhestrau Theatrau Nifer Uchel Cymhlethdod Isel, gyda ffocws cychwynnol ar:<br>Arthroplasti - cydymffurfiad o 90% â safon GiRFT o 4 prif gymal/dydd, 2 erbyn diwedd chwarter 2;<br>- Cataract - 90% o'r rhestrau i fod â 7 Cataract i bob rhestr erbyn diwedd Chwarter 2<br>- Cyflawni 90% o'r amser o leiaf 6 gweithdrefn llawdriniaeth gyffredinol HVLC ar restr diwrnod cyfan sy'n cynnwys torgest neu goden y bustl erbyn diwedd Chwarter 2. |
| | | Cyflawni gwelliannau mewn cyfraddau llawdriniaethau dydd, gan ddisgwyl cyflawni cyfradd achosion dydd BACDS o 70% o fis Ebrill 2025, gan symud i 80% erbyn diwedd Mehefin 2025 |
| | | Dylai dilysu clerigol a chlinigol cyson fod ar waith yn barhaus a dylid adrodd arno bob chwarter i sicrhau'r effaith orau. |
| Cynhyrchiant y Gweithlu | Manteisio i'r eithaf ar gynhyrchiant ac | Gweithredu'n llawn y camau gweithredu a amlinellir yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru ar y Fframwaith Cyflog Amrywiol a Rheoli Asiantaethau |

| | | |
|---|---|---|
| | effeithlonrwydd y gweithlu, gan gryfhau gwerth a defnyddio'r gweithlu yn effeithiol. | Cyflawni gostyngiad parhaus a pharhaus pellach mewn gwariant asiantaethau, gyda gostyngiad targed **o 30%** yn 2025/26 o alldro 2024/25, a sicrhau nad oes gwariant oddi ar y contract. |
| | | Sicrhau gostyngiad mewn gwariant asiantaeth ar Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd, Staff Gweinyddol a Chlerigol, a Staff Ystadau ac Ategol i **sero** erbyn 30 Medi 2025. |
| | | Sicrhau gweithrediad effeithiol y polisi cynllunio swyddi, gan gynnwys sicrhau bod gan > 90% o'r holl Ymgynghorwyr gynllun swyddi y cytunwyd arno bob amser erbyn 30 Medi 2025. |
| | | Sicrhau gostyngiad mewn absenoldeb oherwydd salwch yn 2025/26 o'i gymharu â 2024/25, drwy gadw at ofynion polisïau presenoldeb yn y gwaith y cytunwyd arnynt a chadw at lefelau gwasanaeth gofynnol Iechyd Galwedigaethol Cymru gyfan. |
| Sicrhau Gwerth am Arian | Parhau i wneud y gorau o werth am arian a chyfraniad at effeithlonrwydd cyffredinol drwy feysydd allweddol nad ydynt yn ymwneud â thâl, gan fanteisio i'r eithaf ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd | Materion nad ydynt yn ymwneud â thâl - sicrhau gweithrediad argymhellion y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd, sy'n cynnwys gweithredu dewis cynnyrch sydd wedi'i gymeradwyo'n glinigol a'i orfodi yn lleol i wneud y mwyaf o gyfran o'r farchnad a darparu gwerth gorau. |
| | | Rheoli Meddyginiaethau - sicrhau gweithrediad llawn rhaglen y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd ar gyfer meddyginiaethau gwerth uchel, sy'n cynnwys darparu cyfleoedd yn erbyn pob un o'r pedair rhaglen (gwneud y defnydd mwyaf o meddyginiaeth fiodebyg, newid i feddyginiaethau generig, defnydd a ffefrir o feddyginiaethau mewn gofal sylfaenol, cyfyngu ar bresgripsiynau gwerth isel) |
| | | Gofal Iechyd Parhaus - sicrhau gweithrediad argymhellion y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd sy'n cynnwys camau parhaus i wella effeithiolrwydd clinigol ac ariannol sy'n gysylltiedig â phecynnau gofal. Mae hyn yn cynnwys rhoi datrysiad digidol safonol ar waith i gefnogi casglu gwybodaeth effeithiol ar sail genedlaethol. |
| | | Ystad - sicrhau camau gweithredu parhaus i gryfhau'r defnydd o'r ystad gan gynnwys ailbwrpasu a gwaredu yn briodol ystad na wneir digon o ddefnydd ohono. |
| Gwella Gwerth, Optimeiddio Canlyniadau, a | Cefnogi gwelliannau mewn canlyniadau, effeithiolrwydd a gwerth, drwy sicrhau bod | Sicrhau bod y llwybrau delfrydol cenedlaethol yn cael eu rhoi ar waith yn y rhaglen adfer gwasanaethau canser |
| | | Sicrhau cydymffurfio llawn â chanllawiau anfon yn syth i gael profion |

| | | |
|---|---|---|
| Lleihau Amrywiadau | adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd orau, a chanolbwyntio ar wella canlyniadau | Sicrhau cynnydd wrth weithredu llwybr Effaith Uchel Gwerth Uchel y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd - Diabetes |
| | | Sicrhau cynnydd wrth weithredu llwybr Effaith Uchel Gwerth Uchel y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd - Iechyd Esgyrn |
| | | Sicrhau cynnydd wrth weithredu llwybr Effaith Uchel Gwerth Uchel y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd - Arthroplasti (Clun a Phen-glin) |
| | | Sicrhau bod blaenoriaethau digidol cenedlaethol yn cael eu rhoi ar waith, yn benodol y system famolaeth ddigidol, ac ap GIG Cymru. |
| | | Cefnogi'r gwaith o weithredu a chyflwyno ap GIG Cymru i gael yr effaith a'r budd mwyaf posibl i gynnwys ei ddefnyddio ar gyfer presgripsiynau rheolaidd. |
| | | Dileu systemau a dyfeisiau nad ydynt wedi'u cefnogi, a sicrhau cynllun ymateb seiber clir i'r sefydliad. |
| | | Bwrw ymlaen â gweithredu'r ymagwedd genedlaethol at Ymyriadau nas cyflawnir fel arfer (INNU) - Cyflawni'r 8 gweithdrefn flaenoriaeth a bennwyd i'w gweithredu fel rhan o Gam 1. |
| | | Bwrw ymlaen â gweithredu'r ymagwedd genedlaethol at Ymyriadau nas cyflawnir fel arfer (INNU) - parhau i weithredu argymhellion parhaus drwy gydol 2025/26 |
| | | Sicrhau bod prosesau rheoli atgyfeirio effeithiol yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn cynnwys rhoi Llwybrau Iechyd (y Rhaglen Cynghrair Llwybrau) ar waith yn gyson ar draws pob Bwrdd Iechyd gan fabwysiadu'r 282 llwybr yn gyflym o fewn y rhaglen. |